



# Gwerthuso Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Cam 2 Arolwg Staff GIG Cymru

---

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cefndir, nodau ymchwil a methodoleg

- 1.1 Ar 1 Rhagfyr 2015, daeth Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) i rym yn llawn, gan gyflwyno system feddal o optio allan mewn perthynas â chydsynio i roi organau a meinweoedd. Yn sgîl y newid hwn i'r system rhoi organau a meinweoedd, cafodd GfK ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil er mwyn helpu i ddeall barn staff y GIG am y newid. Amcanion y prosiect, sy'n rhan o raglen ymchwil a gwerthuso ehangach, oedd:
  - Deall agweddau, disgwyliadau a lefelau gwybodaeth am y system newydd
  - Nodi aelodau o staff y gall y system newydd effeithio ar eu gwaith
  - Mesur newidiadau dros amser, ym marn staff y GIG, a'r effaith ddisgwyliedig ar eu gwaith
  - Nodi newidiadau i arferion gwaith yn sgîl gweithredu'r Ddeddf
  - Nodi unrhyw faterion annisgwyl sy'n dod yn sgîl y newid i'r system feddal o optio allan
- 1.2 Cynhaliwyd arolwg sylfaenol gyda staff ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 (h.y. cyn gweithredu'r newid yn y system) a chynhaliwyd ail gylch o waith maes rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Ionawr 2017 (h.y. ar ôl i'r gyfraith ddod i rym).
- 1.3 Cynhaliwyd gwaith maes drwy Gyfweliadau Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI) a lluniwyd holiaduron gan GfK gan ymgynghori'n agos â Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfweliadau â staff y GIG yn eu gweithle.
- 1.4 Pwysolwyd data ar y cam dadansoddi er mwyn sicrhau bod canfyddiadau yn cynrychioli holl staff y GIG yn y galwedigaethau a nodir yn yr arolwg, a sicrhau bod rhanbarthau'r Byrddau Iechyd yn gyson â'r proffil cenedlaethol. Rhoddwyd yr un pwysoliad i'r ddau gylch.

## **2. Canfyddiadau allweddol**

- 2.1 Yn gyffredinol, roedd y lefelau ymwybyddiaeth a chefnogaeth am y newid i'r system rhoi organau'n uchel ac roedd cynnydd sylweddol yn amlwg ers arolwg Cam 1.

### **Ymwybyddiaeth a chefnogaeth**

- 2.2 Yn gadarnhaol, mae'r lefel ymwybyddiaeth o'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cynyddu ers Cam 1. Dywedodd y mwyafrif helaeth o staff eu bod yn ymwybodol o'r newid (96% ar gyfer Cam 2 o'i chymharu ag 89% ar gyfer Cam 1). Ymhlith meddygon teulu y cafwyd y cynnydd mwyaf nodedig o ran lefelau ymwybyddiaeth (100% ar gyfer Cam 2, o'i chymharu â 93% ar gyfer Cam 1) a nyrsys ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys nac uned triniaeth ddwys (98% ar gyfer Cam 2 o'i chymharu ag 86% ar gyfer Cam 1).
- 2.3 Mae lefelau cefnogaeth staff y GIG ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth hefyd wedi cynyddu gyda mwy na phedwar o bob pump (85%) bellach o blaid y newid (71% ar gyfer Cam 1). Mae cyfran y staff a oedd yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth arnynt er mwyn penderfynu a oeddent yn cefnogi'r newid mewn deddfwriaeth wedi haneru (22% ar gyfer Cam 1 yn erbyn 11% yn unig ar gyfer Cam 2).
- 2.4 Gofynnwyd i staff am eu statws personol o ran rhoi organau a'r newid i'r system cydsynio. Dim ond 3% a ddywedodd eu bod wedi cofrestru i optio allan, h.y. na fyddent yn rhoddwr, a dywedodd bron chwarter eu bod naill ai'n ystyried eu hopsiynau neu nad oeddent wedi meddwl am y mater.
- 2.5 Yn gadarnhaol, dywedodd pedair rhan o bump (80%) o staff eu bod, ar ryw adeg, wedi trafod eu penderfyniad i fod yn rhoddwr ai peidio ag aelod o'u teulu.

### **Gwybodaeth am newid i'r system rhoi organau**

- 2.6 Yn ogystal â chynnydd mewn ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r newid mewn deddfwriaeth, mae lefelau gwybodaeth a hunansgoriwyd hefyd wedi cynyddu. Dywedodd pedair rhan o bump (80%) yng Ngham 2 eu bod yn gwybod cryn dipyn am y newid i'r system rhoi organau (i fyny o 57% yn y Cam cyntaf). Roedd cynnydd mewn lefelau gwybodaeth a hunansgoriwyd yn arbennig o nodedig ymhlith meddygon teulu (79% ar gyfer Cam 2 yn erbyn 51% ar gyfer Cam 1); nyrsys ysbyty a meddygon nad ydynt yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys nac uned triniaeth ddwys (78% ar gyfer Cam 2 yn erbyn 39% ar gyfer Cam 1 ar gyfer nyrsys a 77% ar gyfer Cam 2 yn erbyn 43% ar gyfer Cam 1 ar gyfer meddygon).
- 2.7 Mae agweddau at y newid yn y system rhoi organau wedi parhau i fod yn gadarnhaol ac, o'u cymharu â'r Cam blaenorol, yn sefydlog. Roedd mwy na phedair rhan o bump yn cytuno y bydd y system feddal o optio allan yng Nghymru yn arwain at achub mwy o fywydau (85%) a bod y system yn dal i gynnig y rhyddid i ddewis oherwydd y gall unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt am wneud hynny (93%). Fodd bynnag, fel yn y Cam cyntaf, meddygon ysbyty sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau triniaeth ddwys oedd â'r gyfran isaf o staff a oedd yn cytuno y bydd y system feddal o optio allan yng Nghymru yn arwain at achub mwy o fywydau (73% o'i chymharu ag 86% ymhlith grwpiau staff eraill).

- 2.8 Mae tystiolaeth sy'n awgrymu y gall rhai aelodau o staff fod yn camddehongli neges y system feddal o optio allan o ran rôl y teulu. Roedd gostyngiad yng nghyfran y staff a oedd yn meddwl y bydd gan y teulu rôl i'w chwarae yn y broses rhoi organau (84% ar gyfer Cam 2 o'i chymharu â 92% ar gyfer Cam 1) ac, os yw'r teulu mewn trallod dros y penderfyniad i roi organau, na fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen (58% ar gyfer Cam 2 o'i chymharu â 74% ar gyfer Cam 1).
- 2.9 Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae tystiolaeth ddangosol sy'n awgrymu nad yw llythrennol y ddeddf yn cael ei dilyn yn llwyr ar lawr adrannau damweiniau ac achosion brys. Ymhlith meddygon ysbyty sy'n gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys neu uned triniaeth ddwys, mae'r gyfran a ddywedodd ei bod yn wir y gall y teulu ddiystyru dymuniadau'r ymadawedig wedi cynyddu o chwarter (28%) i hanner (50%) – sylwer nad yw'r canfyddiad hwn yn ddangosol oherwydd maint bach y cronfeydd.

### **Ateb cwestiynau**

- 2.10 Mae lefelau hyder wrth ateb cwestiynau gan y cyhoedd a chleifion am y system newydd o roi organau wedi cynyddu. Yn gyffredinol, dywedodd tri chwarter y staff (75%) eu bod o leiaf yn weddol hyderus wrth ateb cwestiynau (gan gynyddu o 62%). Mae cyfran y staff a ddywedodd eu bod yn hyderus iawn wedi dyblu dros y tair blynedd (o 6% ar gyfer Cam 1 i 12% ar gyfer Cam 2).
- 2.11 Fel y cafwyd yng Ngham 1, roedd gwybodaeth yn cynyddu hyder, gyda phedair rhan o bump o'r rhai a ddywedodd eu bod yn gwybod swm gweddol o leiaf am y newid i'r system cydsynio i roi organau yn dweud eu bod yn hyderus yn ateb cwestiynau (83% o'i chymharu â 46% nad oeddent yn gwybod llawer amdano neu ddim byd o gwbl).
- 2.12 Mae canran y staff a ddywedodd y byddent yn cysylltu ag aelod o'r tîm/staff rhoi organau os oedd claf neu aelod o'r cyhoedd am siarad â rhywun am y broses rhoi organau wedi cynyddu i ddwy ran o dair bron (64% ar gyfer Cam 2, gan gynyddu o 54%). Fel y cafwyd yn yr arolwg cyntaf, staff a oedd yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys neu uned triniaeth ddwys oedd fwyaf tebygol o sôn am gysylltu â'r tîm/staff rhoi organau (90% ar gyfer meddygon a nyrsys arbenigol).
- 2.13 Roedd y ffynonellau gwybodaeth am roi organau a grybwyllwyd amlaf yn cynnwys gwefannau/llynellau cymorth (47%), y tîm/staff rhoi organau (26%) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (mewn rwyd, Camlythyr) (21%).

### **Yr effaith ar swyddi**

- 2.14 Nawr bod y newid i'r system rhoi organau wedi cael ei roi ar waith, cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y staff a ddwedodd nad oedd y newid yn effeithio ar eu swydd (88% yng Ngham 2 yn erbyn 57% yng Ngham 1). Ymhlith y staff y cafodd y newid effaith ar eu swydd, y mater a grybwyllwyd amlaf oedd amser a dreuliwyd yn ateb cwestiynau gan gleifion a theuluoedd cleifion.

## **3. Casgliadau ac ystyriaethau**

- 3.1 Mae'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cael croeso cynnes gan y mwyafrif helaeth o staff y GIG yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth o'r newid i'r system wedi cynyddu ym mhob grŵp staff ers Cam un, ond yn fwyaf nodedig ymhlith grwpiau staff nad ydynt yn ymwneud â'r broses rhoi organau'n uniongyrchol. Mae cefnogaeth i'r newid yn y gyfraith yn gryf a chynyddodd rhwng dau gylch yr arolwg staff.

- 3.2 Er bod gwybodaeth a hunansgoriwyd am y system rhoi organau wedi cynyddu ymhlith yr holl staff ers Cam 1, mae wedi bod yn fwyaf nodedig ymhlith y rhai nad ydynt yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys nac uned triniaeth ddwys. Fodd bynnag, mae'n debyg bod angen mwy o addysg neu eglurhad i staff ar rôl y teulu yn system feddal newydd o optio allan y broses rhoi organau. Er bod lefelau hyder wrth ateb cwestiynau am y system rhoi organau wedi cynyddu'n sylweddol ers Cam 1, nid yw'r ddealltwriaeth o rôl y teulu wedi bod cystal rhwng y ddau gylch. Felly, gall fod yn bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried atgyfnerthu negeseuon am rôl y teulu ar gyfer grwpiau staff penodol, gan gynnwys meddygon teulu.
- 3.3 Mae agweddau cyffredinol at y newid i'r system rhoi organau wedi parhau i fod yn gadarnhaol ac roedd llai o staff, o'u cymharu â Cam 1, bellach yn teimlo bod y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r Llywodraeth.
- 3.4 Mae'r mwyafrif helaeth o staff wedi nodi nad yw'r newid yn y gyfraith wedi effeithio ar eu swydd er gwaethaf cyfran sylweddol yn disgwyl y byddai hynny'n digwydd pan ofynnwyd iddynt yng Ngham 1. I'r staff y mae'r newid wedi cael effaith ar eu swydd, y mater a grybwyllwyd amlaf oedd amser a dreulwyd yn ateb cwestiynau gan gleifion a theuluoedd cleifion.
- 3.5 Grwpiau galwedigaethol a oedd bellaf oddi wrth y broses rhoi organau oedd leiaf ymwybodol, gwybodus a hyderus am ateb cwestiynau yng Ngham 1, ond yng Nghamau 2 rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn yr agweddau hyn i'r rhan fwyaf o staff.
- 3.6 Yn gyffredinol, meddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys nac uned triniaeth ddwys sy'n tueddu i fod yn ymwneud lleiaf â'r broses rhoi organau; nhw oedd y lleiaf tebygol o bob grŵp galwedigaethol o fod wedi trafod rhoi organau â'u teulu. Fodd bynnag, ymhlith y grŵp hwn, cafwyd cynnydd sylweddol mewn gwybodaeth a hyder a hunansgoriwyd wrth ateb cwestiynau rhwng Camau 1 a 2.

Awduron yr adroddiad: GfK

Adroddiad ymchwil llawn: Glendinning, R. a McHugh, S. (2017). *Gwerthuso Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Cam 2 Arolwg Staff y GIG*. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 44/2017.

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-human-transplantation-wales-act/?lang=cy>

Barn yr ymchwilyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0090

E-bost: [ian.jones006@llyw.cymru](mailto:ian.jones006@llyw.cymru)